Cronfa Datblygu Staff WHELF – Canllawiau ymgeisio

Beth wnawn ni ei gyllido

· Digwyddiadau datblygu staff, neu OERs sy'n ysgogi, cefnogi a chysylltu â Nodau Strategol WHELF fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Gweithredu WHELF.

· Digwyddiadau, gweithgareddau neu OERs sy'n llywio ffyrdd y gall WHELF ddatblygu ac arloesi yn y dyfodol

· Datblygu, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth staff sy'n cynnig budd i'r amrywiaeth ehangaf o staff o fewn aelodaeth WHELF

· Digwyddiadau, gweithgareddau neu OERs sy'n cynnwys yr uchod i gyd ond sydd â photensial i estyn allan at bartneriaid llyfrgell eraill yng Nghymru a thu hwnt

Beth na wnawn ni ei gyllido

· Ffioedd a threuliau unigolion i fynychu digwyddiadau datblygu neu hyfforddi staff

· Gweithgareddau nad ydynt o fudd i aelodau WHELF yn yr ystyr ehangaf

· Prosiectau na arweinir gan rywun o sefydliad WHELF

· Prosiectau ymchwil unigol penodol

· Bwrsariaethau neu ffioedd cwrs ar gyfer cwrs israddedig neu ôl-raddedig

Daearyddiaeth

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sydd â'r cyrhaeddiad ehangaf yng Nghmru yn ddaearyddol a thechnolegol (gan gynnwys defnydd o fideogynadledda, Skype neu greu OERs) i aelod-sefydliadau WHELF.

Cydraddoldeb

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n cyrraedd y nifer mwyaf o staff mewn aelod-sefydliadau WHELF ar bob lefel, sy'n berthnasol iddynt ac sy'n cael effaith arnynt.

Cyllid cyfatebol

Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sydd â mwy nag un ffynhonnell cyllid yn ogystal â chyllid WHELF.

Monitro a Gwerthuso

- Bydd angen gwerthuso'r holl brosiectau'n effeithiol i ddangos eu bod yn cyflawni'r buddion a nodir.
- Dychwelwch y ffurflen gais am gyllid wedi'i chwblhau i Swyddog Datblygu WHELF g.l.morris@swansea.ac.uk